## Gweithgareddau i'w gwneud cyn i chi fynd

Rydym wedi darparu detholiad o weithgareddau i chi eu cynnal o bosib cyn ymweld. Mae posib eu haddasu i fod yn addas i anghenion eich dosbarth ar draws y CSBC, CA1 a CA2. Byddant yn paratoi plant ar gyfer ymweliad ac yn ysgogi diddordeb a chwilfrydedd am eu safle claddu lleol.

Rhowch gynnig ar y gweithgareddau hyn os ydych yn gweithio tuag at unrhyw rai o'r bathodynnau a'r heriau canlynol:



***Enfys*** – Edrych a Dysgu

***Beavers*** – Archwilio

***Brownies*** – Sgiliau, Canfod Eich Ffordd, Allan yn yr Awyr Agored

***Cybiau*** – Gwybodaeth Leol

***Guides*** – Canfod Eich Ffordd

### Gweithgaredd 1

***Canlyniad Dysgu***

Bydd y plant yn gwybod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol am farwolaeth ac am gofio

Pwrpas y gweithgaredd yma yw annog trafodaethau er mwyn sefydlu meddyliau a theimladau'r plant am safleoedd claddu, marwolaeth a chofio.

Anfonwch lythyr wedi'i gyfeirio at y dosbarth yn eu gwahodd i ymweld â'u safle claddu lleol neu trefnwch i becyn gael ei ddosbarthu. Gallai'r pecyn gynnwys eitemau i'w defnyddio fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth ac i ysgogi diddordeb y plant yn eu hymweliad. Gallai'r gwrthrychau gynnwys cerdyn cydymdeimlo, ffotograff, tusw o flodau, symbol, rhwbiad oddi ar garreg fedd, stori fel 'Michael Rosen's Sad Book' neu eitem naturiol o safle claddu, fel hedyn neu ddeilen.

***Pwynt trafod*** – Sut rydym yn teimlo pan mae pobl sy'n annwyl i ni'n marw? Beth rydych yn disgwyl ei weld mewn safle claddu?

***Adnoddau*** Gellid argraffu'r ***pecyn ffotograffau*** sydd yn y pecyn hwn ar gyfer ei ddefnyddio gyda'r gweithgaredd yma, neu ei arddangos ar fwrdd gwyn rhyngweithiol.

### Gweithgaredd 2

***Canlyniad Dysgu***

Bydd y plant yn deall ein bod yn ymddwyn yn wahanol mewn gwahanol lefydd

Bydd y plant yn adlewyrchu ar sut mae codau ymddygiad y cytunwyd arnynt yn effeithio ar eu hymddygiad

Pwrpas y gweithgaredd yma yw paratoi'r athrawon a'r plant ar gyfer ymweliad â safle claddu a sicrhau eu bod i gyd yn teimlo bod croeso iddynt ei archwilio a'u bod yn hyderus i wneud hynny.

Defnyddiwch y cyngor sydd wedi'i atodi - 'Paratoi cyn ymweliad' i arwain y plant i greu cod ymddygiad defnyddiol ar gyfer safle claddu. Dylai'r plant greu cyfres o reolau am sut maent yn teimlo y dylai eu dosbarth ymddwyn yn ystod eu hymweliad â safle claddu. Gallai'r plant gynllunio poster lliwgar i arddangos eu rheolau arno.

***Pwynt trafod*** - Pam ddylem ni ddangos parch mewn safle claddu?

***Adnoddau*** Gellir defnyddio'r templed ***Cod Ymddygiad*** yn y pecyn hwn i gefnogi'r gweithgaredd yma.

### Gweithgaredd 3

***Canlyniad Dysgu***

Bydd y plant yn creu map i gynllunio llwybr yn yr ardal leol ac yn dod o hyd i leoliad y safleoedd claddu lleol

Pwrpas y gweithgaredd yma yw cefnogi astudiaethau lleol ac mae'n annog plant i ymchwilio i'w hardal leol.

Chwiliwch am y safle claddu rydych yn bwriadu ymweld ag o ar fap lleol a chynlluniwch eich llwybr iddo. Gallech hefyd ddod o hyd i'r safle claddu ar Google Earth a lleoli safleoedd claddu eraill yn eich ardal. Pwyntiau trafod - Sut fyddwch chi'n cyrraedd yno? Pa mor bell i ffwrdd yw'r safle? Faint o amser fydd yn ei gymryd? Beth rydych yn sylwi arno? Pam mae wedi'i leoli yma yn eich barn chi?